

PPLRPTO4W

Sicrhau lechyd a diogelwch ac ymdrin â digwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau yn eich amgylchedd gwaith mewn gweithrediadau cludiant teithwyr ffordd



Trosolwg

Mae'r uned yma'n edrych ar sicrhau iechyd a diogelwch yn eich amgylchedd gwaith ac ymdrin a digwyddiadau ac argyfyngau. Dylech allu adnabod y peryglon hynny y gallech ddod ar eu traws yn y gwaith, asesu'r risgiau, a chyfyngu ar y perygl i chi'ch hun ac i eraill a'r niwed i eiddo. Dylech wybod a deall beth yw'r risgiau, sut i'w cofnodi a pha weithrediadau y mae'r awdurdod gennych i'w gwneud er mwyn cyfyngu ar berygl. Dylech allu adnabod yr angen am weithrediadau priodol, a gwneud y gweithrediadau priodol hynny, er mwyn ymdrin ag argyfyngau sydd o fewn cyfyngiadau eich cyfrifoldeb.

Cynnwys yr uned:

1 Pennu peryglon ac asesu risgiau i iechyd a diogelwch

Mae'r elfen hon yn ymwneud a'r ffordd yr ydych yn adnabod peryglon nodweddiadol y gallech ddod ar eu traws yn ystod eich gwaith arferol. Gallai'r peryglon yma fod yn gysylltiedig a nodweddion y fan lle'r ydych yn gweithio, eich gweithgareddau gwaith, neu sefyllfaoedd peryglus eraill. Mae'n ymdrin a'r ffordd rydych yn asesu lefelau risg, y bobl hynny allai fod mewn perygl a mesurau ataliol y gallech eu cymryd i ostwng y risg. Gallai'r risgiau fod yn fygythiadau go iawn neu bosibl i fywyd, iechyd, eiddo neu'r amgylchedd. Fe allech chi adnabod peryglon wrth edrych yn rheolaidd ar y lle gweithio, yr offer, neu gofnodion diogelwch, neu fe allech chi, yn syml, ganfod y peryglon ar hap. Esiamlau o'r gweithredu y byddai'n rhaid i chi ei wneud ar unwaith efallai yw gwagio'r lle gweithio, ynysu achos y risg, rhoi gwybod am y risg neu atal gweithrediadau. Dylech allu cofnodi manylion y risg lle bo'n briodol, a sicrhau cymorth os ydych yn ei chael hi'n anodd penderfynu ar lefel y risg i iechyd a diogelwch.

2 Gweithredu i ymdrin a digwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau

Mae'r elfen hon yn ymdrin a'r ffordd y dylech weithredu i ymdrin ag argyfyngau, digwyddiadau neu ddamweiniau, yn cynnwys mynd allan pan fo tan, pecynnau amheus a rhybuddion diogelwch. Dylech weithredu mewn ffordd sy'n cyfateb a chanllawiau neu drefnau lleol neu gyfreithiol perthnasol a chymeradwy eich sefydliad a dylai'r ffordd a weithredwch fod o fewn eich gallu a'ch awdurdod bob amser. Pan fyddwch yn gweithredu dylech gadw safonau gwasanaeth cwsmeriaid. Mewn sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'ch gallu neu eich awdurdod dylech wybod ymhle a sut i gael cymorth gan, er enghraifft, y gwasanaethau argyfwng, cydweithwyr gweithredwyr eraill a sefydliadau sy'n darparu cymorth. Dylech hefyd allu rhoi gwybod am fanylion argyfyngau, digwyddiadau neu ddamweiniau ac unrhyw weithredu yr ydych wedi'i wneud.

PPLRPTO4W

Sicrhau iechyd a diogelwch ac ymdrin â digwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau yn eich amgylchedd gwaith mewn gweithrediadau cludiant teithwyr ffordd

3 Cyfyngu ar y risg o anaf neu niwed i bobl ac eiddo

Mae'r elfen yma'n ymdrin a'r ffordd yr ydych yn dangos eich bod yn gallu cyfyngu ar y risg o anaf neu niwed i bobl ac eiddo sy'n codi o ddigwyddiadau, damweiniau neu argyfyngau megis offer yn torri, gweithredoedd pobl eraill, tan neu beryglon amgylcheddol. Bydd disgwyl i chi weithredu ar unwaith ac yn effeithiol i gyfyngu ar y risg a chadw at gyfarwyddiadau neu ganllawiau cymeradwy lle bo'n briodol. Ni chewch gynyddu'r risg i chi'ch hun nag i bobl eraill. Dylai unrhyw weithredu a wnewch fod o fewn eich awdurdod a'ch gallu. Dylech allu sicrhau cymorth gan y person priodol pan fyddwch chi'n methu gweithredu'n effeithiol i gyfyngu ar y risg. Gallai'r cymorth yma fod naill ai gan eich sefydliad eich hun neu gan un o'r awdurdodau. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn gallu rhoi cyfarwyddiadau neu wybodaeth glir i bobl eraill fel eu bod yn gallu gweithredu'n briodol.

Grŵp Targed

Mae'r uned yma i bawb sy'n gweithio mewn gweithrediadau cludiant teithwyr ffordd, ar lefel oruchwyllo neu reoli gan fwyaf.

PPLRPTO4W

Sicrhau iechyd a diogelwch ac ymdrin â digwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau yn eich amgylchedd gwaith mewn gweithrediadau cludiant teithwyr ffordd

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Pennu peryglon ac asesu risgiau i iechyd a diogelwch

- P1 adnabod eich dyletswyddau a'ch rhwymedigaethau statudol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch
- P2 adnabod peryglon a lefel y risg posibl a'r risg gwirioneddol i iechyd a diogelwch yn eich gweithle arferol
- P3 penderfynu ar lefel y risg, a phwy allai gael eu heffeithio gan y risg hwnnw
- P4 sicrhau cymorth gan berson priodol os nad ydych yn sicr am lefel y risg
- P5 pennu gweithredu ataliol sy'n gostwng y risg ac unrhyw effeithiau posibl ar y risg, cyn belled ag y bo'n bosibl
- P6 cofnodi digon o fanylion y risgiau fel eich bod yn gallu gweithredu'n briodol yn y dyfodol
- P7 adrodd manylion llawn a chywir y risgiau i'r person priodol

Gweithredu i ymdrin â digwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau

Rhaid i chi allu:

- P8 gweithredu i ddelio gydag argyfyngau, digwyddiadau neu ddamweiniau yn unol a threfnau a chanllawiau eich sefydliad
- P9 sicrhau bod y ffordd yr ydych yn bwriadu gweithredu'n cyfateb, lle bo'n bosibl, a threfnau neu ganllawiau eich sefydliad
- P10 ystyried anghenion unigolion a ydynt yn gydweithwyr, teithwyr neu'n aelodau o'r cyhoedd wrth weithredu
- P11 rhoi gwybod i bawb perthnasol a phriodol am y ffordd y gweithredwyd yn unol a threfnau eich sefydliad
- P12 sicrhau cymorth o'r ffynonellau priodol mewn sefyllfaoedd sydd y tu allan i'ch awdurdod neu eich gallu eich hun
- P13 cadw a phrosesu cofnodion cywir o argyfyngau neu ddigwyddiadau yn unol a threfnau eich sefydliad

Cyfyngu ar y risg o anaf neu niwed i bobl ac eiddo

Rhaid i chi allu:

- P14 gweithredu'n effeithiol ac ar unwaith i gyfyngu ar y risg heb gynyddu'r risg neu'r bygythiad i chi'ch hun neu i bobl eraill
- P15 bod yn sicr bod y gweithredu a wnewch o fewn cyfyngiad eich awdurdod a'ch gallu
- P16 dilyn cyfarwyddiadau neu ganllawiau ar gyfer cyfyngu ar y risg o anaf neu niwed i bobl eraill
- P17 cael cymorth ar unwaith os na allwch ddelio'n effeithiol gyda'r risg
- P18 rhoi cyfarwyddiadau neu wybodaeth glir i bobl eraill er mwyn gadael iddynt weithredu'n briodol
- P19 cofnodi a/neu adrodd manylion y risg yn unol a'r canllawiau perthnasol

PPLRPTO4W

Sicrhau iechyd a diogelwch ac ymdrin â digwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau yn eich amgylchedd gwaith mewn gweithrediadau cludiant teithwyr ffordd

P20 adrodd am unrhyw anawsterau a gewch wrth geisio cadw at ganllawiau neu gyfarwyddiadau iechyd a diogelwch eich sefydliad, gan roi manylion llawn a chywir

PPLRPTO4W

Sicrhau iechyd a diogelwch ac ymdrin â digwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau yn eich amgylchedd gwaith mewn gweithrediadau cludiant teithwyr ffordd

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Pennu peryglon ac asesu risgiau i iechyd a diogelwch

- K1 beth yw perygl a risg
- K2 eich dyletswydd i sicrhau eich iechyd a'ch diogelwch chi ac iechyd a diogelwch pobl eraill
- K3 y peryglon a'r risgiau nodweddiadol yn eich gweithle arferol, gan gynnwys y rheiny ar y ffordd
- K4 costau ariannol posibl ac effeithiau personol anaf
- K5 sut i asesu risgiau a pheryglon i iechyd a diogelwch sy'n debygol o ddigwydd
- K6 sut i benderfynu ar y lefel o risgiau, pwy allai fod mewn perygl a lefel y gweithredu ataliol sy'n ofynnol
- K7 manylion y dylech eu cofnodi a/neu roi gwybod amdanynt yn ymwneud a risgiau a pheryglon
- K8 y gweithredu ataliol y gallwch ei wneud i ostwng y lefelau risg i lefel dderbyniol
- K9 y canllawiau mewn perthynas ag ymdrin a risgiau
- K10 ymhle a sut i gael help lle bo'n angenrheidiol
- K11 sut i atal risgiau corfforol o ganlyniad i godi a chario, symudiad ac ymddaliad, a phwysigrwydd bod yn heini
- K12 sut i'ch amddiffyn eich hun rhag sylweddau allay fod yn niweidiol

Gweithredu i ymdrin â digwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau

Mae angen i chi wybod a deall:

- K13 yr argyfyngau, digwyddiadau neu ddamweiniau posibl y byddech efallai'n gorfod delio a nhw neu gynghori cydweithwyr ynglŷn a sut i ddelio a nhw, er enghraifft, damweiniau mewn cerbydau neu gerbydau'n torri, ymddygiad teithwyr, salwch neu farwolaeth, eiddo wedi'i ddwyn, bagiau amheus neu heb eu hawlio, trychinebau naturiol, tanau a rhybuddion diogelwch yn cynnwys bygythiadau terfysg
- K14 yr hyn y gallwch ei wneud ac y mae gennych yr awdurdod i'w wneud
- K15 sut i weithredu i ddelio gydag argyfyngau, digwyddiadau neu ddamweiniau
- K16 sut i ostwng, cyn belled ag y bo'n bosibl, unrhyw beryglon posibl mewn argyfyngau, digwyddiadau neu ddamweiniau nodweddiadol sy'n ymwneud a theithio
- K17 gweithdrefnau a chanllawiau eich sefydliad ar gyfer ymdrin ag argyfyngau, digwyddiadau neu ddamweiniau, a rhoi gwybod amdanynt
- K18 y cyfrifoldebau sefydliadol a chyfreithiol perthnasol sydd gennych wrth ymdrin ag argyfyngau, digwyddiadau neu ddamweiniau e.e. Rheoliadau COSHH

PPLRPTO4W

Sicrhau iechyd a diogelwch ac ymdrin â digwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau yn eich amgylchedd gwaith mewn gweithrediadau cludiant teithwyr ffordd

- K19 y pethau sy'n effeithio ar ewyllys da a gwasanaeth cwsmeriaid mewn argyfyngau, digwyddiadau neu ddamweiniau
- K20 sut a phryd y dylech geisio cymorth pan fyddwch ei angen

Cyfyngu ar y risg o anaf neu niwed i bobl ac eiddo

Mae angen i chi wybod a deall:

- K21 pryd mae'n ddiogel ac yn briodol i weithredu ar unwaith heb eich rhoi eich hun neu bobl eraill mewn perygl
- K22 sut y gallwch weithredu, a pha fath o weithredu rydych wedi'ch awdurdodi i'w wneud, er mwyn cyfyngu ar y risg o anaf neu niwed
- K23 cyfarwyddiadau neu ganllawiau eraill eich sefydliad yn ymwneud a delio gyda sefyllfaoedd peryglus a rhoi gwybod amdanynt
- K24 sut i ddefnyddio offer a systemau larwm priodol i gyfyngu ar berygl
- K25 dulliau o gyfathrebu'n effeithiol a phriodol i adael i bobl eraill wybod am y risgiau
- K26 ymhle a sut i gael cymorth gydag amddiffyn pobl ac eiddo wrth ddelio a sefyllfaoedd peryglus

PPLRPTO4W

Sicrhau iechyd a diogelwch ac ymdrin â digwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau yn eich amgylchedd gwaith mewn gweithrediadau cludiant teithwyr ffordd

Gwybodaeth ychwanegol

Geirfa

Eich Sefydliad

Dyma'r cwmni yr ydych yn gweithio iddo neu, os ydych yn hunangyflogedig, y rheolau yr ydych wedi'u gosod i chi'ch hun i sicrhau eich bod yn cydymffurfio a gofynion cyfreithiol a thrwyddedu

Damwain

Gweithred sy'n achosi niwed/anaf i chithau neu i bobl eraill

Digwyddiad

"Damwain agos" heb niwed/anaf i chi'ch hun neu i bobl eraill

Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r uned hon wedi'i seilio ar unedau 1 a 5 y gyfres Gyrru Cerbyd Teithwyr Ffordd *GoSkills*.

PPLRPTO4W

Sicrhau iechyd a diogelwch ac ymdrin â digwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau yn eich amgylchedd gwaith mewn gweithrediadau cludiant teithwyr ffordd

Datblygwyd gan People 1st

Fersiwn rhif 1

Dyddiad cymeradwyo Ebrill 2009

Dyddiad adolygu a awgrymir Ebrill 2011

Dilysrwydd Cyfredol

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol GoSkills

RCU gwreiddiol RPTO 4

Galwedigaethau perthnasol Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Cludiant; Gyrwyr a Gweithwyr Cludiant

Cyfres/Set Gweithrediadau Cludiant Teithwyr Ffordd

Geiriau Allweddol